**COFNODION PWYLLGOR ARBENNIG Y TY^^**

**Adnewyddu'r Contract Arlwyo**

**Dyddiad**: 20 Ionawr 2005

**Amser**: 9.30am

**Lleoliad**: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad, Bae Caerdydd

**Aelodau'n bresennol:**

Dirprwy Lywydd (Cadair)

Jeff Cuthbert, AC Llafur

William Graham, AC Ceidwadwr

Janice Gregory, AC Llafur

David Melding, AC Ceidwadwr

Karen Sinclair, AC Llafur

Owen John Thomas, AC Plaid Cymru

Y Llywydd (yn bresennol)

**Swyddogion yn bresennol:**

Paul Silk, Clerc i'r Cynulliad

Dianne Bevan, Dirprwy Glerc i'r Cynulliad a Chlerc i Bwyllgor y T^

Nerys Evans, Pennaeth Reoli Swyddfa a Chyfleusterau

Peter Jones, Adran y Gyfraith

Catherine Morris, Ysgrifennydd Preifat i'r Dirprwy Lywydd

Sara Lloyd Mackay, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y T^

Gareth Brydon, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y T^

**Ymddiheuriadau**: Lorraine Barrett, AC Llafur

Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol

Jane Hutt, AC Llafur

1. <u>Sylwadau Agoriadol</u>

7. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chadarnhau ei fod yn cael ei gynnal yn breifat. Croesawodd David Melding, Cadeirydd yr Is-grw^p Arlwyo, a Jeff Cuthbert a ddaethai yn lle Lorraine Barrett, i'r cyfarfod..

2. <u>Materion yn Codi</u>

2.1 Cyfeiriodd y Cadeirydd at y diddordeb a fynegwyd mewn defnyddio derw Cymreig yn yr adeilad newydd. Adroddodd mai go brin y gellid defnyddio derw Cymreig yn helaeth a byddai copi o lythyr Clerc y Pwyllgor at William Graham ynghylch y mater hwn yn cael ei gylchredeg ymhlith yr aelodau. Gofynnodd y Llywydd i gopi o'r wybodaeth ynghylch defnyddio cwmnïau Cymreig, a drafodwyd gan Grwp Llywio Polisi'r adeilad newydd, gael ei gylchredeg ymhlith Aelodau'r Pwyllgor.

**Gweithredu : Dianne Bevan**

2.2 Gofynnodd Janice Gregory am i'r ysgrifenyddiaeth beidio â chylchredeg papurau mewn mwy nag un e-bost ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor y T^ yn y dyfodol. Eglurwyd bod y papur ychwanegol wedi'i gyflwyno ar gais y Cadeirydd er mwyn i'r aelodau dderbyn yr wybodaeth lawnaf bosibl.

**Gweithredu : Ysgrifenyddiaeth**

3. <u>Adnewyddu'r Contract Arlwyo HC(2)-01-05(p1)</u>

3.1 Cyflwynodd y Cadeirydd y papur. Gellid tendro pedwar math o gontract arlwyo:

i. Contract Consesiwn;

ii. Costau +;
iii. Costau+ gyda gwarantau (a elwir weithiau'n Gontract Gwarantedig);
iv. Pris Sefydlog/Cyfraniad.

3.2 Cytunodd yr Aelodau yr hoffent gael elfen o reoli ansawdd yn fewnol yn y contract newydd, drwy gadw cogydd gweithredol o bosibl. Gwahoddodd y Cadeirydd Gadeirydd yr Is-grw^p Arlwyo i gyflwyno'u hargymhellion.

3.3 Dywedodd David Melding fod yr Aelodau'n gwybod am argymhellion yr Is- grw^p Arlwyo. Fodd bynnag, byddai'r Is-grw^p Arlwyo'n cefnogi unrhyw benderfyniad a wnaed gan Bwyllgor y T^.

3.4 Trafododd yr Aelodau bosibiliadau newid y contract presennol. Efallai y byddai gofyn ad-drefnu cyfleusterau'r gegin i wella hyblygrwydd y trefniadau arlwyo; roedd hyn eisoes yn cael ei drafod.

.

**Gweithredu: Nerys Evans**

3.5 Aeth yr Aelodau ymlaen i drafod ymhellach y dewisiadau sy'n agored iddynt . Codwyd nifer o faterion, gan gynnwys staffio a hyfforddi staff, manylion am hwylustod y gegin a dewisiadau bwyta'n iach. Cydnabu'r Aelodau fod angen, yn ôl pob tebyg, ddau fath o wasanaeth – sef ffreutur a gwasanaeth archebu personol a allai arlwyo ar gyfer gwahoddedigion a phwysigion sy'n ymweld.

7. Yn sgil y trafod cytunodd yr Aelodau i ail-dendro'r contract arlwyo ar sail costau + gyda gwarantau, fel bod y contract newydd yn gallu dechrau pan ddaw'r cyfnod contract presennol i ben, neu mor fuan â phosibl ar ôl hynny. Derbyniodd yr Aelodau y gellid cael estyniad byr i hwyluso'r cynlluniau ar gyfer gwasanaethau arlwyo yn yr adeilad newydd. Roedd y Pwyllgor am drafod posibilrwydd cael cogydd a gyflogid gan y Cynulliad neu a gontractid yn uniongyrchol iddo, a hynny er mwyn rheoli ansawdd.

7. Gofynnodd y Cadeirydd i Nerys Evans drefnu cyfarfod rhwng y rheolwyr rhanbarthol presennol, Jeremy Griffith, David Melding a Janice Gregory.

**Gweithredu : Nerys Evans**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 3 Chwefror 2005

**Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y T**